Cyd-Bwyllgor Corfforedig
Gogledd Cymru
North Wales
Corporate Joint Committee

IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL

9 TACHWEDD 2026

TEITL: Diweddariad Sefyllfa'r Cynllun Datblygu Strategol

AWDUR: Andy Roberts, Swyddog Cynllunio Datblygu Strategol Rhanbarthol

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y sefyllfa a gyrhaeddwyd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol (SDP).

2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Bod yr Aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

3. Y RHESWM AM Y PENDERFYNIAD

3.1. Diweddaru'r Aelodau ynglŷn â'r cynnydd gyda'r Cynllun Datblygu Strategol.

4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Bydd yr Aelodau yn cofio o'r adroddiad diweddaru i gyfarfod diwethaf yr Is-bwyllgor hwn y cyfeiriwyd at waith sy'n dod i'r amlwg yn ymwneud ag archwiliad o'r dystiolaeth bresennol sydd ar gael a allai fod yn ddefnyddiol i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol, yn ogystal ag i adnabod bylchau a gwaith pellach sydd ei angen i ddarparu'r dystiolaeth ddiweddaraf i gefnogi datblygu'r cynllun.

4.2 Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforedig wedi cyflogi ymgynghorwyr Ove Arup yn dilyn proses dendro, i gyflawni'r gwaith hwn ar ran y Pwyllgor, ac maent bellach wedi darparu Adroddiad Archwilio Tystiolaeth drafft i'w ystyried ac am sylwadau. Mae'r adroddiad drafft hefyd wedi'i rannu â thimau Polisi pob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Ngogledd Cymru am eu barn, oherwydd yn y bôn mae'n cyflwyno canlyniad adolygiad o ddigonolrwydd, cysondeb a chwmpas y dystiolaeth gyfredol sydd ganddynt ar gyfer gwaith y Cynllun Datblygu Lleol. Mantais bellach i rannu'r adroddiad yw caniatáu i Awdurdodau Cynllunio Lleol ddeall yr argymhellion ar gyfer gwaith pellach a'u galluogi i alinio â'r gwaith hwn a'r cam sydd wedi'i gyrraedd wrth adolygu'r Cynlluniau Datblygu Lleol unigol, er mwyn manteisio ar y gwaith a/neu ddatblygu'r briff ar y cyd â'r Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.3 Mae'r cam casglu tystiolaeth yn hanfodol i'r camau dilynol o baratoi'r cynllun ac mae cadernid y canlyniad o ran polisïau strategol neu gynigion yn y cynllun yn uniongyrchol gysylltiedig â pha mor gynhwysfawr a chadarn yw'r sylfaen dystiolaeth. Mae hwn yn brawf allweddol o gadernid o ran paratoi ac Archwilio'r Cynllun Datblygu Strategol.

4.4 Er nad yw'r archwiliad tystiolaeth yn gyhoeddus eto, nod yr adroddiad hwn yw cyflwyno crynodeb ystyrlon i'r Aelodau o'i brif ganfyddiadau a'i argymhellion ar gyfer gwaith pellach.

Unwaith y bydd sylwadau wedi'u bwydo'n ôl a'r adroddiad wedi'i gwblhau, ac yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig, bydd wedyn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ffurfiol ar gyfer y Cynllun Datblygu Strategol a bydd ar gael i'r cyhoedd.

4.5 Yn gryno, mae'r archwiliad yn dod i'r casgliad bod gan Ogledd Cymru sylfaen dystiolaeth sylweddol a chadarn yn gyffredinol gan awdurdodau lleol, cyrff rhanbarthol a sefydliadau cenedlaethol. Mae digon o dystiolaeth i ddechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol; fodd bynnag, datblygwyd llawer o'r dystiolaeth at ddibenion cynllunio lleol ac nid yw wedi'i alinio eto i gefnogi un strategaeth ranbarthol. Y brif her felly yw integreiddio, diweddaru a safoni tystiolaeth yn hytrach na diffyg unrhyw dystiolaeth. Bydd angen rhaglen o astudiaethau rhanbarthol ychwanegol i sefydlu sylfaen dystiolaeth gyson sydd â'r gallu i gefnogi penderfyniadau strategol ar dwf, seilwaith, tai, yr economi, diogelu'r amgylchedd a'r Gymraeg.

Prif Ganfyddiadau

4.6 Adnabu'r archwiliad feysydd o gryfder presennol yn y sylfaen dystiolaeth fel a ganlyn:

- Trafnidiaeth a chysylltedd.
- Cynhyrchu a dosbarthu ynni.
- Cynllunio mwynau a gwastraff.
- Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.
- Perygl llifogydd a rheoli dŵr.
- Bioamrywiaeth a materion amgylcheddol.
- Twristiaeth ac economi ymwelwyr.
- Ystyriaethau ynglŷn â'r Gymraeg.
- Datblygu economaidd a chyflogaeth.

4.7 Yn benodol, mae gwaith rhanbarthol sydd eisoes wedi'i wneud drwy'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol, y Strategaeth Ynni Ranbarthol a'r trefniadau mwynau a gwastraff presennol, yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol.

4.8 Er bod tystiolaeth yn bodoli ar draws y rhan fwyaf o feysydd polisi, canfu'r archwiliad sawl problem gyda'r dystiolaeth:

- Amrywiadau yn oedran y dystiolaeth ar draws awdurdodau.
- Gwahanol fethodolegau a ddefnyddir ar gyfer rhagfynegi ac asesu.
- Dulliau anghyson o hierarchaethau aneddiadau a chynllunio twf.
- Lefelau amrywiol o dystiolaeth seilwaith.
- Gwahaniaethau mewn dulliau i asesu'r Gymraeg.
- Tystiolaeth gyfyngedig wedi'i pharatoi'n benodol ar raddfa ranbarthol Gogledd Cymru.

Bylchau Allweddol mewn Tystiolaeth

4.9 Y bwlch mwyaf arwyddocaol a adnabuwyd yw diffyg fframwaith tystiolaeth gofodol rhanbarthol cynhwysfawr a all lywio:

- Dosbarthiad twf ar draws Gogledd Cymru.
- Lleoliadau datblygu strategol.
- Hierarchaeth aneddiadau.
- Penderfyniadau cynllunio trawsffiniol.
- Llunio polisi strategol.

4.10 Yn ogystal, mae angen tystiolaeth bellach i:

- Brofi senarios twf amgen.
- Asesu goblygiadau seilwaith.
- Cymharu canlyniadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Datblygu a chyfiawnhau strategaeth twf rhanbarthol a ffefrir.

4.11 Yn olaf, mae angen tystiolaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion polisi Cymru'r Dyfodol, yn enwedig ynglŷn â:

- Dynodiad posibl Llain Werdd yn ardal Wrecsam a Glannau Dyfrdwy.
- Cynllunio Seilwaith Gwyrdd Strategol.
- Adferiad natur a chysylltedd ecolegol.

Rhaglen Waith a Argymhellir

4.12 Mae'r adroddiad yn argymell rhaglen o astudiaethau rhanbarthol pellach i ddarparu'r dystiolaeth angenrheidiol i gefnogi'r Cynllun Datblygu Strategol. Cyflwynir yr astudiaethau hyn yn y tabl a ganlyn ac maent wedi cael eu trefnu i gydnabod y drefn y mae angen eu blaenoriaethu a'u paratoi, i gyd-fynd â rhaglen ac amserlen y Cytundeb Cyflawni. Wedi dweud hynny, mae'r gwaith a argymhellir yn debygol o gymryd o leiaf 18 mis i'w gwblhau, sy'n cyferbynnu ag amseriad y Cytundeb Cyflawni ar gyfer paratoi'r Strategaeth a Ffefrir, sydd ychydig dros flwyddyn i ffwrdd.

Cam 1: Sylfeini Strategol
• Fframwaith Tystiolaeth Gofodol Strategol.
• Astudiaeth Hierarchaeth Aneddiadau.
• Asesiad o'r Gymraeg.
• Fframwaith Seilwaith Gwyrdd ac Adferiad Natur.
• Astudiaeth Dŵr, Llifogydd a Gwydnwch Arfordirol.
Cam 2: Twf a Chyflawnadwyedd
• Asesiad Strategol o'r Farchnad Dai.
• Asesiad o Anghenion Economaidd a Chyflogaeth.
• Asesiad Capasiti Seilwaith.
• Asesiad Rhanbarthol Sipsiwn a Theithwyr.
• Asesiad Hyfywedd.
• Astudiaethau Twristiaeth a Manwerthu.
Cam 3: Datblygu Strategaeth
• Rhaglen Asesu Safleoedd Posib.
• Asesu Safleoedd Strategol.
• Asesiad Opsiynau Gofodol.
• Datblygu Strategaeth Twf a Ffefrir.

4.13 Felly, mae gwaith pellach yn mynd rhagddo i herio'r angen am yr astudiaethau hyn a argymhellir, a'u cynnwys, a fydd yn arwain at raglen wedi'i mireinio, gyda mwy o ffocws yn perthyn iddi, gobeithio. Manteision hyn yw sicrhau bod gwaith yn cael ei wneud sy'n gwbl angenrheidiol er mwyn cadw at yr amserlen, ac i alinio â'r lwfansau cyllidebol a wnaed ar gyfer gwaith ymgynghori yn y cynllun ariannol tymor canolig tair blynedd sydd wedi'i baratoi i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig.

4.14 Felly, mae'r gallu i ddiffinio'r gwaith hwn a'i gwblhau mewn modd amserol yn peri risg allweddol ar y cam hwn o baratoi'r cynllun. Yn ychwanegol at hyn mae'r angen i sicrhau bod angen caffael y gwaith pellach, os caiff ei gomisiynu gan ymgynghorwyr (sy'n debygol iawn yn yr achos hwn), yn y ffordd fwyaf effeithlon er mwyn osgoi oedi gweinyddol sy'n rhoi baich ar y gwaith o baratoi'r cynllun.

Casgliad

4.15 Mae'r archwiliad yn dod i'r casgliad bod Gogledd Cymru mewn sefyllfa dda i ddechrau paratoi'r Cynllun Datblygu Strategol. Mae'r dystiolaeth bresennol yn fan cychwyn cryf, ond mae angen gwaith ychwanegol i greu sylfaen dystiolaeth ranbarthol gydlynol a all gefnogi dewisiadau strategol ar dwf, seilwaith, diogelu'r amgylchedd a datblygu cynaliadwy. Bydd comisiynu astudiaethau blaenoriaeth yn gynnar yn hanfodol i gynnal cynnydd yn erbyn amserlen y Cynllun Datblygu Strategol. Nid yw Gogledd Cymru yn wynebu sefyllfa o ddiffyg tystiolaeth; ond mae'n wynebu her gydag integreiddio rhanbarthol. Y brif flaenoriaeth yw datblygu sylfaen dystiolaeth gyson, gyfredol ac wedi'i halinio'n rhanbarthol a all fod yn sail i'r Cynllun Datblygu Strategol.

5. GOBLYGIADAU ARIANNOL

5.1. Bydd costau'n cael eu tynnu o gyllidebau presennol CBC y Gogledd lle gwnaed darpariaeth i gefnogi'r gwaith hwn, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol gan dimau Cyfreithiol a Chyllid y CBC. Bydd y CBC hefyd yn ceisio sicrhau pob cyfle am gymorth ariannol pellach gan Lywodraeth Cymru.

6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL

6.1. Mae'r gofynion a'r camau penodol i gynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol wedi'u nodi yn Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021.

ATODIADAU:

Atodiad 1: Dim

YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:

i. **Swyddog Monitro:**
"Mae gan y CBC ddyletswydd statudol i baratoi Cynllun Datblygu Strategol ac mae'r fframwaith statudol wedi'i ystyried gan y Pwyllgor hwn. Mae'r argymhellion ar gyfer eu nodi yn unig ac nid ydynt yn cymeradwyo unrhyw safbwynt polisi gwirioneddol, strategaeth a ffefrir, dyrannu safle neu ddogfen ymgynghori.

Wrth i'r Cynllun Datblygu Strategol fynd rhagddo, bydd angen i adroddiadau yn y dyfodol adnabod ymhellach y cam statudol perthnasol, gofynion ymgynghori, dyletswyddau asesu, ac ati. Gall gweithdai anffurfiol i Aelodau gynorthwyo datblygiad y Cynllun Datblygu Strategol, ar yr amod eu bod yn cael eu defnyddio ar gyfer ymgysylltu a thrafodaeth yn unig, gydag unrhyw allbynnau materol yn cael eu bwydo i'r broses ffurfiol o adrodd a gwneud penderfyniadau."

ii. **Swyddog Cyllid Statudol:**
"Nid oes gennyf unrhyw wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisiwyd ac mae'r costau a amcangyfrifir o gyflawni'r Cynllun Datblygu Strategol yn cael eu hystyried yn barhaus.

Bydd yn cael ei gynnwys yn ein gwaith fel rhan o'r adolygiadau cyllideb rheolaidd, y broses gyllideb flynyddol yn ogystal ag yn y cynllun ariannol tymor canolig."